



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: 48602**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

## Canllawiau Statudol Drafft Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Amcanion yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol oedd:

- rhannu egwyddorion y canllawiau statudol drafft a chrynhoi eu hamcanion allweddol;
- gwrandao ar unrhyw bryderon a thrafod unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r canllawiau statudol drafft;
- egluro'r camau nesaf.

Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'n hymgyngoriad a ddaeth i law Llywodraeth Cymru:

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: Canllawiau Statudol drafft

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 6 Mawrth 2023 a daeth i ben ar 9 Mehefin 2023. Roedd yr ymarferiad hwn yn targedu dros 315 o unigolion ac arweiniodd at 48 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

## **Camau Gweithredu Gofynnol**

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw'r ddogfen hon.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## **Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [SUSRWales@llyw.cymru](mailto:SUSRWales@llyw.cymru)

## **Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-unigol-aduu>

## Cynnwys

Diben yr adroddiad hwn .....	4
Cyflwyniad.....	4
Y Broses Ymgynghori ac Ymgysylltu.....	5
Ymatebion a dderbyniwyd a'r dadansoddiad a gwblhawyd .....	6
Crynodeb o Themâu Allweddol .....	18
Camau Nesaf .....	24
Atodiad Un .....	25
Atodiad Dau .....	33

## **Diben yr adroddiad hwn**

Amlinellu'r canlynol:

1. y prosesau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd, a'r rhanddeiliaid sydd wedi'u targedu;
2. yr ymatebion a ddaeth i law a'r dadansoddiad a gwblhawyd;
3. crynodeb o'r themâu a'r materion allweddol a godwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru;
4. y camau nesaf ar gyfer rhagor o waith a fydd yn cael ei wneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

## **Cyflwyniad**

Datblygwyd y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn cael ei hystyried ar draws yr holl asiantaethau perthnasol, rhai datganoledig a rhai heb eu datganoli, yn hytrach na mewn seilios sefydliadol, yn dilyn digwyddiad arwyddocaol sy'n sbarduno'r broses adolygu. Lluniwyd Canllawiau Strategaeth Drafft ADUS gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol i amlinellu'r broses. Bu'r Canllawiau Statudol Drafft yn destun ymgynghoriad er mwyn cael adborth ar eu cynnwys a phenderfynu a ydynt yn gwneud y canlynol yn effeithiol:

- egluro beth yw ADUS;
- cynnwys gofynion deddfwriaethol perthnasol;
- esbonio'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau gwahanol sy'n codi o'r broses ADUS;
- egluro'r broses sydd i'w chynnal os oes ADUS yn cael ei gychwyn; a
- mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynwysoldeb, yn enwedig mewn perthynas â dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae'r Canllawiau Statudol Drafft wedi'u bwriadu ar gyfer ymarferwyr, darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol a allai gyfrannu at Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Gall hyn amrywio o weithwyr cymdeithasol, dioddefwyr a theuluoedd, yr heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol, partneriaethau allweddol gan gynnwys Byrddau Diogelu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r trydydd sector.

Felly, mae'r gynulleidfa darged yn gymharol eang, ac roedd rhaid defnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan yn y broses ymgynghori mewn modd rhagweithiol a chynhwysol. Defnyddiwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori, fel yr amlinellir isod:

- sicrhau bod prosesau ymgysylltu yn hygyrch:
  - cynhyrchu fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i bobl ifanc o'r canllawiau statudol drafft a ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad, a'u gosod ar-lein;
  - cysylltu â phartneriaid allweddol i nodi a hwyluso cyfleoedd i ymgysylltu â dioddefwyr a theuluoedd, gan gynnwys sefydlu'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd;
  - cynnal cyfarfodydd unigol, gweithdai, grwpiau ffocws, paneli defnyddwyr a chyfarfodydd rhanddeiliaid hygyrch ac wedi'u hwyluso; a
  - sicrhau bod deunyddiau ymgynghori yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod cyfieithu ar y pryd ar gael mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r ymgynghoriad cyhoeddus pan fydd angen.
- cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y dudalen we <https://www.llyw.cymru/ymgynghoriadau> gyda mynediad at ffurflen ymgynghori ar-lein, dogfennau ymgynghori a ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad;
- hyrwyddo'r ymgynghoriad trwy gyfryngau amrywiol, gan ddefnyddio esboniad a fideo animeiddiedig gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol;
- lle y bo'n briodol, defnyddio digwyddiadau a chyfarfodydd sydd eisoes wedi'u cynllunio i sicrhau cymaint o bresenoldeb â phosibl (e.e. cyfarfodydd Byrddau Diogelu a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol).

## Y Broses Ymgynghori ac Ymgysylltu

Yn dilyn cam cyn y broses ymgynghori i adolygu drafft cyntaf y Canllawiau Statudol gyda phartneriaid allweddol, dechreuodd Llywodraeth Cymru broses ymgynghori gyhoeddus ffurfiol ar gyfer Canllawiau Statudol drafft ADUS ar 6 Mawrth 2023. Parhaodd y cyfnod ymgynghori tan 9 Mehefin 2023, cyfnod o bedair wythnos ar ddeg er mwyn ystyried gwyliau banc. Er mwyn targedu cynifer o unigolion a sefydliadau â phosibl, fe wnaeth Fradd Consultancy a Thîm ADUS (a oedd yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru) ymgymryd â'r mathau canlynol o ymgysylltu:

- 3 chyfarfod Grwpiau Ffocws yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De
- 1 Cyfarfod Grŵp Ffocws ar-lein
- Cyfarfodydd unigol gyda Phrif Gwnstabiliaid, Arweinwyr y Trydydd Sector a'r Swyddfa Gartref
- Cyflwyniadau mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid (manylion isod)

Roedd y dull gweithredu hwn yn golygu bod amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn gallu cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Comisiynydd Plant Cymru
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Gwasanaethau Tân ac Achub
- Byrddau Iechyd
- Awdurdodau Lleol
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol
- Uned Gyswllt yr Heddlu
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Byrddau Diogelu
- Ambiwylans Sant Ioan
- Prifysgolion
- Gwasanaeth Prawf Cymru
- Cymorth i Ferched Cymru


Daeth cyfanswm o dros 315 o unigolion i'r digwyddiadau ymgysylltu amrywiol a amlinellwyd uchod.

## **Ymatebion a ddaeth i law a'r dadansoddiad a gwblhawyd**

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â phob cwestiwn a ddarparwyd yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ADUS. Mae'r graffiau a'r siartiau yn [Atodiad Un](#) yn darparu gwybodaeth am yr ymatebion cadarnhaol a negyddol a dderbyniwyd. Mae [Atodiad Dau](#) yn cynnwys rhestr o bawb a ymatebodd i'r ymarferiad ymgynghori. Gellir gwneud cais am y tabl llawn o ymatebion drwy e-bostio blwch negeseuon e-bost ADUS yn [SUSRWales@llyw.cymru](mailto:SUSRWales@llyw.cymru). Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth wneud newidiadau i Ganllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

**Mewn llawer o achosion, mae'n bwysig nodi bod ymatebydd yn ymateb ar ran partneriaeth, ond ei fod yn cael ei nodi fel un endid yn yr adroddiad hwn, felly gallai'r ffigur sylfaenol fod yn llawer mwy.**

Mae'r graff canlynol yn darparu trosolwg o'r ymatebion cadarnhaol neu negyddol a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer pob un o'r cwestiynau.



Cadarnhaol Negyddol

**Cwestiwn 1 - A yw'r Cyflwyniad yn rhoi eglurder ynglŷn â'r amcanion a'r rhesymau dros gyflwyno'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)? A yw'r Cyflwyniad fel y mae wedi'i nodi yn Adran 1 yn glir ac yn hawdd i'w ddeall?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79%) wedi ticio'r bocs 'ydy' i'r cwestiwn hwn, tra bod 21% wedi ticio'r bocs 'nac ydy'.

I grynhoi, nododd yr ymatebion fod modd gwella strwythur yr adran hon i sicrhau nad yw'n defnyddio iaith gymhleth, ac nad yw'n rhy hir nac yn ailadroddus. Hefyd, cyfeiriodd yr ymatebwyr at y diagramau a sut y gellid eu symleiddio ar gyfer y darlennydd.

Croesawyd y ffaith fod cymhlethdod presennol partneriaethau yng Nghymru wedi'i gydnabod yn yr adran hon. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r strwythur llywodraethu newydd (gan gynnwys yr Hyb Cydgysylltu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a'r Bwrdd Gweinidogol). Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo y gallai'r adran lywodraethu fod wedi cynnwys mwy o eglurder wrth nodi rolau penodol pob un o'r byrddau a'r grwpiau.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu nod allweddol proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i leihau dyblygu a lleihau'r baich ar ddiodefwyr a'u teuluoedd a'u gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i weld llais y diodefwyr yn cael ei gryfhau yn yr adran hon.

Mynegwyd pryder ynglŷn â chapasiti Adolygwyr a Byrddau Diogelu, ac roedd hon yn thema barhaus yn yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Trafodir y mater hwn yn fanylach yn yr adran [Crynodeb o Themâu Allweddol](#) yn y ddogfen hon.

## **Cwestiwn 2 - A yw'r Egwyddorion sy'n tanategu'r ADUS a nodir yn Adran 2 yn cyflawni canlyniad dymunol ymagwedd ragweithiol tuag at ddatblygu datrysiadau a diwylliant dysgu cadarnhaol sy'n osgoi adroddiadau lluosog ar gyfer un digwyddiad, gan helpu i leihau trawma pellach ar gyfer diodefwyr a'u teuluoedd?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (76%) wedi ticio'r bocs 'ydyn' i'r cwestiwn hwn, tra bod 24% wedi ticio'r bocs 'nac ydyn'.

Nodwyd bod y diwylliant dysgu a fydd yn deillio o'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn fanteisiol i'r drefn adolygiadau yng Nghymru, ac y bydd dull gweithredu agored a thryloyw yn bwysig wrth symud ymlaen. Nodwyd hefyd fod yr egwyddorion yn canolbwyntio ar ddiodefwyr a'u teuluoedd, ond bod angen mwy o eglurder a chysondeb ar gyfer terminoleg yn ymwneud â diodefwyr. Awgrymwyd nad yw'r term 'diodefwyr' yn briodol i rai unigolion a allai ystyried eu hunain yn fwy cywir fel 'goroeswyr'. Hefyd, nodwyd nad yw'r termau 'plentyn mewn perygl' neu 'oedolyn mewn perygl' yn addas bob tro i ddisgrifio'r rhai sy'n 'diodefwyr' cam-drin domestig neu laddiad.

Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai'r egwyddorion yn yr adran hon fod yn gysylltiedig ag egwyddorion gwaith presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd megis 'Dilysnodau Ymarfer Effeithiol' ac 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'. Hefyd, gofynnodd rhai ymatebwyr am eiriad penodol ar gyfer cydraddoldeb, cynwysoldeb ac amrywiaeth yn yr adran hon er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o egwyddorion sylfaenol y broses. Gofynnodd ymatebwyr eraill am gryfhau'r geiriad yn ymwneud â Chomisiynydd Heddlu a Throsedd, y Comisiynydd Diodefwyr, y Comisiynydd Cam-drin Domestig, asiantaethau trydydd sector a gwasanaethau arbenigol.

Nodwyd bod Ystorfa Ddiogelu Cymru yn fenter gadarnhaol sydd wedi gwella'r broses.

Nodwyd bod angen darparu hyfforddiant sylweddol ar gyfer Adolygwyr, Cadeiryddion ac Aelodau Paneli Adolygu er mwyn cyflwyno'r ADUS yn llwyddiannus.

## **Cwestiwn 3 - A yw Adran 3 yn rhoi'r eglurder sydd angen i benderfynu pa bryd y dylid ymgymryd ag ADUS, ac a yw'r meini prawf yn glir a defnyddiol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (73%) wedi ticio'r bocs 'ydy' i'r cwestiwn hwn, tra bod 27% wedi ticio'r bocs 'nac ydy'.

I grynhoi, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y meini prawf ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yn fwy eglur na'r meini prawf ar gyfer Adolygiadau



Lladdiad Domestig, Adolygiadau Lladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol. Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â beth fyddai'n digwydd pe bai achos yn bodloni meini prawf lluosog a phwy fyddai'n arwain yr adolygiad. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng adolygiad 'cryno' ac 'estynedig' yn yr adran hon.

Codwyd materion yn ymwneud ag Adolygiad Lladdiad Domestig Panel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref, ac a fyddai angen anfon adolygiadau sy'n bodloni'r meini prawf Adolygiad Lladdiad Domestig i'r panel hwn. Hefyd, mynegwyd pryderon am yr oedi sy'n digwydd ar hyn o bryd pan anfonir adolygiadau i'r Panel Sicrhau Ansawdd. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth am wyro oddi wrth y canllawiau Adolygu Lladdiad Domestig a fydd yn gwella'r broses Adolygu Diogelu Unedig Sengl. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder yn yr adran hon ynglŷn â'r berthynas rhwng Byrddau Diogelu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Trafodir y mater hwn ymhellach yn yr adran [Crynodeb o Themâu Allweddol](#) isod.

Awgrymwyd y byddai cynnwys rhai enghreifftiau o achosion pan fydd angen cynnal adolygiad yn ychwanegiad defnyddiol at yr adran hon, a bod angen cwblhau gwerthusiad o'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl er mwyn deall ei effaith ar y system adolygiadau yng Nghymru a sicrhau ei fod yn gweithredu yn ôl y disgwyl a'r angen. Codwyd y ddau bwynt hyn mewn ymateb i nifer o gwestiynau'r ymgynghoriad.

#### **Cwestiwn 4 - A yw Adran 4 yn darparu eglurder am y broses ADUS, ac a oes digon o fanylion ar gyfer pob cam?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (67%) wedi ticio'r bocs 'ydy' i'r cwestiwn hwn, tra bod 33% wedi ticio'r bocs 'nac ydy'.

Gofynnodd pedwar ymatebydd am ganllawiau ar gyfer creu llinell amser asiantaeth o fewn yr adran hon. Teimlwyd y byddai hyn yn darparu rhywfaint o gysondeb defnyddiol ar draws rhanbarthau gwahanol. Hefyd, gofynnodd rhai ymatebwyr am ychwanegu amserlenni penodol at yr adran hon er mwyn helpu Adolygwyr a Phaneli Adolygu i aros ar y trywydd iawn i gwblhau'r broses adolygu mewn modd amserol. Hefyd, awgrymodd yr ymatebwyr fod angen darparu dolen i dempled y Pecyn Cymorth yn yr adran hon er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer pob adolygiad. Roedd wyth ymatebydd yn teimlo y gellid gwella'r diagram yn yr adran hon gan ei fod yn aneglur ar hyn o bryd.

Awgrymodd tri ymatebydd fod angen darparu mwy o wybodaeth am fonitro Cynlluniau Gweithredu. Nodwyd bod angen uwchgyfeirio argymhellion a chymau gweithredu a lefel leol cyn mynd yn syth at y Bwrdd Gweinidogol. Gellid gwneud hyn trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

#### **Cwestiwn 5 - A yw pob un o'r Rolau a Chyfrifoldebau a nodir yn Adran 5 yn glir a defnyddiol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74%) wedi ticio'r bocs 'ydyn' i'r cwestiwn hwn, tra bod 26% wedi ticio'r bocs 'nac ydyn'.

Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am broses ar gyfer mynd i'r afael ag anghytundebau proffesiynol os ydynt yn codi yn ystod y

broses. Hefyd, awgrymwyd y dylai gwybodaeth am gymorth i Adolygwyr yn yr adran hon gynnwys cyfeiriadau. Roedd rhai yn teimlo bod yr Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol yn yr adran hon yn cynnwys gormod o gyfeiriadau ac yn peri dryswch, a bod angen darparu mwy o eglurder yn y paragraffau sy'n trafod Lladdiadau Domestig.

Hefyd, gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o wybodaeth ac eglurder am sut mae Adolygwyr a Chadeiryddion Paneli Adolygu yn cael eu penodi a phwy sy'n eu penodi, a sut y gellid mynd i'r afael ag annibyniaeth gan fod rhai rhanbarthau yn poeni am "gollu" eu Hadolygwyr lleol i ranbarthau eraill. Awgrymwyd y byddai rhagor o wybodaeth am y Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy yn helpu i liniaru'r pryder hwn.

Roedd pedwar ymatebydd yn teimlo bod is-adran am Gadeirydd y Panel Adolygu ar goll o'r adran hon ac y byddai'n ychwanegiad defnyddiol at y canllawiau.

### **Cwestiwn 6 - A yw paragraffau 5.6-5.9 ac atodiad 3 y canllawiau'n helpu Adolygw(y)r i ystyried pa un ai a ddylai partneriaid cymunedol (megis sefydliadau annibynnol a thrydydd sector) gael rhan yn y broses ADUS? Os na, sut y gallai'r canllawiau wella ar hyn?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (77%) wedi ticio'r bocs 'ydynd' i'r cwestiwn hwn, tra bod 23% wedi ticio'r bocs 'nac ydynd'.

Awgrymodd un o'r ymatebwyr y byddai hon yn adran briodol i nodi'r ffaith y dylai sefydliadau eiriolaeth allu bod yn rhan o'r Panel Adolygu. Cynigiodd pum ymatebydd awgrymiadau eraill ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr yn Atodiad tri yn y canllawiau statudol. Mae'r awgrymiadau hyn yn cynnwys Cymdeithasau Tai, Cymorth i Ferched Cymru a sefydliadau eraill yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Hefyd, gofynnwyd am eglurder yn yr adran hon ynglŷn ag ehangder ac arbenigeddau cynrychiolwyr y trydydd sector a fyddai'n cael eu hystyried yn bartneriaid cymunedol.

Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r adran hon nodi y dylid cynnwys partneriaid cymunedol yn y broses adolygu fesul achos, er mwyn penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i gynrychioli gwrthrych yr adolygiad. Gofynnwyd hefyd am roi sylw dyledus i effaith y broses adolygu ar Aelodau'r Panel, trwy ddarparu mwy o wybodaeth am y gwaith sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod o'r Panel a sut maen nhw'n derbyn cymorth gan y partneriaid statudol yn ystod y broses. Awgrymwyd bod gwybodaeth am sut y bydd Aelodau'r Panel yn ymgysylltu â'r broses yn elfen bwysig i'w chynnwys yn yr adran hon. Gellid pwysleisio pwysigrwydd hyn trwy gynnwys rhestr o resymau dros ymgysylltu â phartneriaid cymunedol gan y byddai hyn yn amlygu manteision fel enghraifft o ymarfer gorau. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai amserlen sy'n darparu arweiniad i dîm yr Adolygiad ar faint o amser sydd ei angen i ymgynnull Panel Adolygu yn ychwanegiad defnyddiol at yr adran hon.

**Cwestiwn 7 - A yw paragraffau 5.7 – 5.9 ac Atodiad 3 y canllawiau'n helpu'r Adolygw(y)r i ystyried pa un ai a ddylid gofyn i 'unigolyn neu gorff cymwys' am wybodaeth benodol? Os na, sut y gallai'r canllawiau wella ar hyn?**

Dyweddodd rhai ymatebwyr nad oes angen rhagor o eglurder yn yr adran hon gan ei bod yn egluro ei hun. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr wedi awgrymu ychydig o ychwanegiadau er mwyn sicrhau bod yr adran mor ddefnyddiol â phosibl. Er enghraifft, awgrymwyd y dylai'r adran hon atgoffa Cadeirydd y Panel Adolygu i sicrhau bod aelodaeth y Panel Adolygu yn cynrychioli'r dioddefwr fel bod ei lais yn cael ei gynnwys yn y broses, ac y dylid pwysleisio'r angen am rannu gwybodaeth gan sefydliadau, fel Gofal Sylfaenol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau presennol. Cododd y pwynt hwn yng nghwestiwn 12 hefyd ac fe'i trafodir ymhellach yno.

Nododd tri o'r ymatebwyr nad yw'r adran hon wedi'i hysgrifennu mewn iaith glir ac y gallai'r derminoleg gyfreithiol fod yn anodd i rai darllenwyr ei deall. Nododd un ymatebydd fod diffiniadau cliriach o 'berson neu gorff cymwys' ar gael yn y gyfrol gyntaf o Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, ac y gellid cyfeirio ati yn yr adran hon. Hefyd, gofynnodd yr ymatebwyr am ddiffiniad o'r term 'lens amrywiaeth' at ddibenion eglurder yn yr adran hon. Nododd tri pherson nad yw defnyddio'r gair "pŵer" yn yr adran hon yn ymddangos yn briodol, ac y gellid ei newid.

Nodwyd hefyd fod angen cynnwys Byrddau Diogelu a sefydliadau o'r tu allan i Gymru, ynghyd â'u hymgysylltiad â'r broses adolygu. Mae hyn yn ymestyn i'r modd y mae'r hyn a ddysgir o adolygiadau, sy'n berthnasol i sefydliadau Cymru, yn cael ei gofnodi a'i fonitro.

**Cwestiwn 8 - I ba raddau ydych chi'n credu y gallai ymgysylltu gan bartneriaid cymunedol perthnasol, neu 'unigolyn neu gorff perthnasol' yn cyflenwi gwybodaeth benodol, lle mae hynny'n briodol, gynorthwyo'r broses ADUS?**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r ymatebion i gwestiwn 7, yn enwedig yn ymwneud â'r iaith a ddefnyddiwyd. Nododd llawer o'r ymatebwyr y gallaiartneriaid cymunedol ddarparu gwybodaeth berthnasol, nad yw ar gael yn unrhyw le arall. Nodwyd ei bod yn bosibl y byddartneriaid cymunedol yn gallu darparu cyd-destun a golwg ehangach ar gronolegau ac adroddiadau, ac y byddai angen i dimau adolygu ystyried pob achos ar sail unigol er mwyn penderfynu pa bartneriaid cymunedol sydd angen cymryd rhan. Hefyd, nodwyd bod gan yr adran hon y potensial i annog asiantaethau i rannu gwybodaeth mewn achosion pan na fyddent wedi bod yn awyddus i wneud hynny o'r blaen o bosibl.

Nodwyd y byddai angen sicrhau bodartneriaid cymunedol yn ymwybodol o'r posibilrwydd y byddai'n rhaid iddynt gymryd rhan yn y broses adolygu, gan nad yw prosesau ymgysylltu yn gyson ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid sicrhau bod hyn yn cynnwys egluro'r disgwyliadau ar gyferartneriaid cymunedol er mwyn diwallu anghenion yr adolygiad. Nodwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol i'rartneriaid cymunedol gael gwybod am yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiad er mwyn gallu cyflwyno unrhyw newidiadau i'w prosesau eu hunain a deall y themâu sy'n deillio o'r adolygiadau.

**Cwestiwn 9 - A yw'r canllawiau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr, teuluoedd a phrif unigolion, fel y nodir yn Adran 6, yn glir a defnyddiol? Ystyriwch pa un ai a yw'n glir bod angen i'r Adolygw(y)r a'r Panel Adolygu ymdrin â phob cyfranogwr yn yr adolygiad fesul achos ac yn sicrhau bod y dioddefydd, teuluoedd a phrif unigolion wrth galon y broses adolygu.**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74%) wedi ticio'r bocs 'ydyn' i'r cwestiwn hwn, tra bod 26% wedi ticio'r bocs 'nac ydyn'.

Roedd yn dda gan rai o'r ymatebwyr weld bod llais y teulu yn cael ei gynrychioli yn yr adran hon, yn enwedig y manylion am gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses adolygu. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod y canllawiau yn rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol yn hytrach na rhoi'r dioddefwr wrth wraidd y canllawiau. Awgrymodd yr ymatebwyr fod angen cynnal asesiad risg ac asesiad o anghenion ar ddechrau'r broses adolygu a bod angen cynnwys y manylion yn yr adran hon. Byddai hyn yn helpu i nodi'r lefelau ymgysylltu mwyaf priodol â gwrthrych yr adolygiad a/neu'r teulu. Hefyd, gofynnodd yr ymatebwyr am gynnwys gwybodaeth yn yr adran hon am bwy sy'n gyfrifol am ymgysylltu â gwrthrych yr adolygiad a/neu'r prif unigolion.

Yn ogystal â gwasanaethau eiriolaeth ffurfiol, roedd yr ymatebwyr am i'r canllawiau gydnabod unigolion y byddai'n well ganddynt gael aelod o'r teulu neu ffrind yn gweithredu fel eiriolwr neu system gymorth amhroffesiynol yn y broses adolygu. Hefyd, gofynnodd un ymatebydd gwestiwn am roi cyfle i'r unigolyn ddewis a yw Adolygydd gwrywaidd neu fenywaidd yn cael ei gomisiynu/ei chomisiynu. Gofynnodd ymatebydd arall am fanylion yn y cwestiwn hwn ynglŷn â phryd a sut y bydd disgwyl i'r trydydd sector gyfrannu at y rhan hon o'r broses, gan gysylltu ag agweddau fel eiriolaeth. Hefyd, cwestiynwyd sut y bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei gyfleu i wrthrych yr adolygiad a/neu'r prif unigolion ar ôl cwblhau'r adolygiad. Gellid ymestyn hyn i'r newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i'r camau gweithredu yn deillio o'r adolygiad.

Cafwyd rhai sylwadau ynglŷn â'r iaith a ddefnyddiwyd yn yr adran hon. Roedd un ymatebydd yn amau a fyddai'r term 'cyflawnwr' yn addas i'w gynnwys yng nghydestun 'prif unigolyn', ac yn meddwl y byddai'n fwy priodol cadw'r term hwn ar wahân ac atgoffa Adolygwyr i ddefnyddio'r term 'cyflawnwr honedig' lle na chafwyd euogfarn. Hefyd, nododd tri ymatebydd fod angen diweddarau'r iaith sy'n gysylltiedig â'r "hyn a elwir yn Lladdiadau ar sail Anrhydedd" er mwyn adlewyrchu'r derminoleg ddiweddaraf. Gofynnodd ymatebydd arall am gynnwys cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn yr adran hon. Yn olaf, croesawodd tri o'r ymatebwyr y cyfeiriad at gael yr opsiwn i ymgysylltu â'r broses adolygu yn y Gymraeg, ond awgrymwyd bod angen ymestyn hyn i gynnwys ieithoedd eraill.

**Cwestiwn 10 - Mae Adran 7 yn amlinellu nifer y camau sydd angen eu cymryd fel rhan o'r broses adolygu. A yw'r camau hyn yn y drefn gronolegol briodol ac yn glir o ran yr hyn sy'n ofynnol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84%) wedi ticio'r bocs 'ydyn' i'r cwestiwn hwn, tra bod 16% wedi ticio'r bocs 'nac ydyn'.

Cytunodd yr ymatebwyr fod yr adran mewn trefn gronolegol, ond roedd consensws cyffredinol bod angen mwy o fanylion. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer yr holl gamau adolygu er mwyn arwain y broses. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i'r adran hon gynnwys gwybodaeth am gytuno ar yr adolygiad, penodi'r Cadeirydd, yr Adolygydd a'r Panel Adolygu a chytuno ar y Cylch Gorchwyl. Gofynnwyd am ychwanegu gwybodaeth am ymgysylltu â'r dioddefwyr a/neu'r teulu yn yr adran hon, yn hytrach na dim ond ei chrybwyll yn y diagram. Mae angen i'r adran hon gynnwys eglurder ynglŷn â phwy sydd angen cyhoeddi'r adroddiad am 12 wythnos. Hefyd, nododd yr ymatebwyr fod angen cyfeirio at y ffaith y bydd staff sy'n mynychu'r digwyddiad dysgu yn derbyn cymorth lles a chymorth cyffredinol. Gofynnwyd cwestiynau am bwy sy'n gyfrifol am greu'r genogram ar gyfer y broses adolygu.

Nododd yr ymatebwyr rai materion yn ymwneud â'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn yr adran hon. Roedd cyfeiriadau at derminoleg hen ffasiwn yr Adolygiadau o Achosion Difrifol a ddefnyddiwyd yn yr adran hon, ac roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod modd ei diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Ystyriwyd bod y gair "fforddiadwy" wrth gyfeirio at greu gweithredoedd yn amhriodol, a theimlai'r ymatebwyr y dylid disodli'r gair hwn â 'chyraeddadwy'. Mynegwyd pryderon hefyd fod yr adran hon yn gwrth-ddweud canllawiau Adolygu Lladdiad Domestig, sy'n nodi: *'It is often incorrectly assumed by local areas that no contact with agencies indicates a Domestic Homicide Review is not required. In fact, a Domestic Homicide Review should probe why there was little or no contact with agencies'*.

Yn olaf, nodwyd bod y diagram sydd wedi'i gynnwys yn yr adran hon yn rhy ddryslyd a bod angen ei adolygu.

**Cwestiwn 11 - A yw Adran 8 yn sicrhau bod dysgu'n elfen allweddol o'r broses ADUS ac yn rhwymedigaeth statudol drwy roi eglurder ynglŷn â sut y rhennir dysgu a gwybodaeth fel rhan o'r broses ehangach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaethau perthnasol megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87%) wedi ticio'r bocs 'ydy' i'r cwestiwn hwn, tra bod 13% wedi ticio'r bocs 'nac ydy'.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o bwyntiau y teimlwyd eu bod yn ychwanegiadau dysgu cadarnhaol at y broses adolygu, gan gynnwys Ystorfa Ddiogelu Cymru a ystyriwyd yn ychwanegiad defnyddiol. Fodd bynnag, gofynnwyd am ragor o fanylion yn yr adran hon er mwyn penderfynu pwy fydd yn cael defnyddio'r Gronfa a darparu eglurder ynglŷn â'r term 'rhanddeiliad perthnasol'. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu

ychwanegu Digwyddiadau Lledaenu Gwybodaeth Thematig ddwywaith y flwyddyn. Rhoddwyd pwyslais ar fanteision amlygu themâu allweddol ledled Cymru ar gyfer cynnal proses adolygu, gan fod modd cyfeirio atyn nhw drwy gydol y broses. Roedd yr opsiwn dysgu canol tymor hefyd yn cael ei ystyried yn ychwanegiad cadarnhaol at y broses gan na fyddai'n rhaid i dimau adolygu aros tan ddiwedd yr adolygiad i ledaenu'r wybodaeth allweddol a ddysgwyd. Cafwyd teimlad cyffredinol o'r ymatebion y bydd proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cryfhau'r elfen ddysgu wrth symud ymlaen.

Awgrymwyd y dylai'r canllawiau gynnwys mwy o fanylion am Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol yn gynharach yn y ddogfen, er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun i'r cynnwys yn yr adran hon.

Hefyd, awgrymodd un ymatebydd y gallai argymhellion sy'n effeithio ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu neu ar yr Heddlu gael eu hanfon i'r Paneli Heddlu a Throseddu priodol er mwyn iddynt fonitro'r broses o roi'r hyn a ddysgir ar waith. Yn ogystal, awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cadw a diweddarau rhestr o randdeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod y bobl briodol yn cael gwybod am bopeth sydd wedi'i ddysgu mewn adolygiadau Cymru gyfan.

Roedd gan rai o'r ymatebwyr gwestiynau am werthuso'r broses, a nodwyd y gallai casglu rhywfaint o ddata sylfaenol fod yn ddefnyddiol wrth geisio deall effaith y broses ac effeithiolrwydd Ystorfa Ddiogelu Cymru. Hefyd, cwestiynwyd sut y byddem yn sicrhau bod dysgu yn cael effaith ar ymarfer wrth symud ymlaen. Roedd yr ymatebwyr eisiau gwybod am y cysylltiad rhwng yr Hyb Cydgysylltu a'r is-grwpiau Dysgu a Datblygu ledled y rhanbarthau.

**Cwestiwn 12 - A yw Adran 9 yn nodi'r ystyriaethau Diogelu Data mewn ffordd sy'n glir a defnyddiol? Hoffech chi weld ymrwymiad cyfreithiol clir yn yr adran hon sy'n ei wneud yn ofynnol i bartneriaid adolygu rannu gwybodaeth ar gyfer dibenion adolygu ADUS ar gais, pe bai modd dod o hyd i un?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84%) wedi ticio'r bocs 'ydy' i'r cwestiwn hwn, tra bod 16% wedi ticio'r bocs 'nac ydy'.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud ag asiantaethau yn rhannu gwybodaeth at ddibenion adolygiadau. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddent yn croesawu rhwymedigaeth gyfreithiol i rannu gwybodaeth gan eu bod wedi wynebu heriau wrth ofyn am wybodaeth. Dywedodd dau ymatebydd fod rhai asiantaethau'n teimlo na allant rannu gwybodaeth am gyflawnwyr heb gydsyniad, gan fynegi eu pryder bod hwn yn rhwystro enfawr i ddysgu.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn fod yr adran hon o'r canllawiau yn eglur. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at feysydd y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth amdanynt. Roedd y materion hyn yn cynnwys peidio â nodi enwau a defnyddio ffugenwau er mwyn sicrhau bod Adolygwyr yn deall eu rhwymedigaethau yn llawn yn y cyswllt hwn. Cyfeiriodd ymatebydd arall at hepgor

swyddogaeth rheolwyr data, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau a dyletswyddau yn cael eu nodi yn fwy eglur yn yr adran hon. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen ystyried a chrybwyll cydsyniad yn yr adran hon er mwyn i dimau adolygu ddeall sut y gallai cydsyniad ddylanwadu ar benderfyniadau asiantaethau wrth benderfynu a ddylid rhannu gwybodaeth. Yn olaf, awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol darparu adnoddau a chanllawiau ychwanegol ar gyfer sefydliadau nad ydynt mor gyfarwydd â'r broses.

### **Cwestiwn 13 - A yw'r canllawiau'n rhoi digon o eglurder a hyblygrwydd er mwyn sicrhau y bydd partneriaid allweddol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gysylltiedig ac yn ymwneud â'r broses ADUS yn effeithiol, pan mae hyn yn briodol a defnyddiol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (70%) wedi ticio'r bocs 'ydyn' i'r cwestiwn hwn, tra bod 30% wedi ticio'r bocs 'nac ydyn'.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y bydd angen cryn amser i roi trefniadau ar waith rhwng Byrddau Diogelu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn rhai ardaloedd. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod cysylltiadau eisoes yn bodoli rhwng diogelwch cymunedol a diogelu. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau yn rhai newydd, ac mae'n bosibl y bydd canllawiau'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn ychwanegu lefel o gymhlethdod a fydd yn creu heriau ychwanegol. Nododd dau ymatebydd fod tabl yr Atodiad sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau yn ddefnyddiol wrth amlinellu'r swyddogaethau, a'i fod yn darparu eglurder ynglŷn â phwy ddylai gyfrannu at y broses adolygu. Nododd un ymatebydd fod y canllawiau hyn i'w croesawu gan fod prosesau cyfathrebu rhwng Byrddau gwahanol wedi bod yn anghyson yn y gorffennol. Nodwyd y bydd y broses hon yn gwella prosesau cyfathrebu trwy wneud cysylltiadau cryfach rhwng Byrddau a Phartneriaethau yn sgil ymrwymiad i gymryd rhan.

Cafwyd rhagor o awgrymiadau gan yr ymatebwyr i'w hychwanegu at y canllawiau er mwyn cryfhau'r adran hon. Gellid cryfhau rhywfaint o'r geiriad megis "mewn partneriaeth" â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a "disgwylir iddynt fod yn bresennol" er mwyn nodi'r pwynt hwn. Awgrymwyd y gellid cryfhau'r disgwyliadau penodol yn ymwneud ag ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan eu bod yn gyfyngedig ar hyn o bryd yn y canllawiau, a byddai uwchgyfeirio cynlluniau gweithredu ac argymhellion i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddull buddiol o ymgysylltu â nhw.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth am sut y byddai Byrddau Diogelu yn cysylltu ac yn cyfathrebu â'r partneriaethau perthnasol. Hefyd, gofynnwyd cwestiynau am sut y byddai modd datrys anghydfod rhwng y Byrddau a'r partneriaethau, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hyn. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu amserlenni ymgysylltu a argymhellir at y diagram. Hefyd, awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys mwy o wybodaeth yn y canllawiau am ymgysylltu â gwasanaethau sydd heb eu datganoli. Yn olaf,

cwestiynodd un ymatebydd pam nad yw adolygiadau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion a Phlant yn cael eu cynnwys yn yr ymgysylltiad a drefnir rhwng y Bwrdd Diogelu a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Roedd yn teimlo y byddai'n fuddiol i holl elfennau perthnasol yr adolygiad fod yn rhan o'r ddeialog er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng diogelwch cymunedol a diogelu.

**Cwestiwn 14 - Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y ffyrdd o weithio a nodir yn y canllawiau hyn ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Croesewir eich barn ynglŷn â sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol hefyd. Defnyddiwch y blwch testun i esbonio'ch rhesymau.**

Codwyd nifer o faterion mewn perthynas ag effaith adolygiad ar unigolion. Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn ymwneud â'r angen i gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sicrhau bod jargon proffesiynol yn cael ei osgoi a gwella'r ddarpariaeth atgyfeirio at eiriolaeth arbenigol. Hefyd, cyfeiriwyd at yr angen i gofnodi anghenion unigol yn gynnar yn y broses, megis dewis iaith a gofynion anabledd, a'r angen i wneud hyn yn y dechrau trwy Asesiad o Anghenion Integredig. Nodwyd ei bod yn bosibl na fyddai'n briodol peidio â chyfeirio at rywedd penodol mewn perthynas â natur rhai o'r achosion posibl a allai godi.

Mynegwyd pwysigrwydd y Grŵp Adolygu Achosion a'r angen i sicrhau cynrychiolaeth briodol mewn perthynas â'r unigolyn, ynghyd â'r angen am hyfforddiant priodol ar gyfer Cadeiryddion ac Adolygwyr gan gynnwys hyfforddiant ar groestoriadedd, rhagfarn ddiarwybod ac amrywiaeth. Hefyd, awgrymwyd bod angen cynnwys egwyddor ychwanegol yn ymwneud â'r agweddau hyn ar ddechrau'r canllawiau.

Nodwyd bod angen ystyried sut i ymdrin â lles Adolygwyr, yn enwedig os oes angen prosesu gwybodaeth anodd a gofidus.

**Cwestiwn 15 - Yn eich barn chi, beth yw effeithiau eraill tebygol y ffyrdd o weithio a nodir yn y canllawiau hyn? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft, manteision, ac anfanteision; costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion; materion ymarferol eraill. Croesewir eich barn ynglŷn â sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol hefyd. Defnyddiwch y blwch testun i esbonio'ch rhesymau.**

Nodwyd bod dysgu o gamgymeriadau yn fuddiant sylweddol, ond nodwyd hefyd fod angen newid diwylliannol enfawr o bosibl i gyflawni hyn mewn rhai lleoliadau. Er mwyn cefnu ar ddiwylliant sy'n seiliedig ar fai, bydd hyfforddiant mewn perthynas â'r agwedd hon yn hanfodol. Yn ogystal, roedd cytundeb cyffredinol y byddai'r gostyngiad yn nifer yr adolygiadau yn osgoi achosi trawma i bobl am yr ail waith.

Unwaith eto, cyfeiriwyd at allu Byrddau Diogelu i gwblhau Adolygiadau a'r pwysau cysylltiedig ar adnoddau. Awgrymwyd y posibilrwydd o gyflwyno cyfraddau tâl safonol ar gyfer Adolygwyr ac Aelodau'r Panel er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau a materion capasiti presennol.



Nodwyd yr angen am becyn hyfforddi effeithiol â phecynnau adnoddau cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod y broses yn symlach ac yn gyson.

Teimlwyd y byddai'r dull gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar weithio mewn partneriaeth ledled Cymru, tra byddai'r ystorfa yn fodd i rannu'r hyn a ddysgir ledled rhanbarthau, themâu allweddol a meysydd i'w datblygu.

**Cwestiwn 16 - Hoffem glywed eich barn hefyd am effeithiau'r broses ADUS ar y Gymraeg, ac yn arbennig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Nodwyd pwysigrwydd dehongli mewn digwyddiadau dysgu, er mwyn sicrhau nad yw'r cyd-destun Cymreig yn cael ei gollu. Mynegwyd pryder am y posibilrwydd o gyfieithwyr yn dod i gysylltiad â gwybodaeth sensitif, gyfrinachol a gofidus iawn, a sut y byddai'r agwedd hon yn cael ei thrin.

Nodwyd bod cymhwyso Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn hanfodol er mwyn sicrhau bod adroddiadau a deunyddiau allweddol eraill megis pecynnau hyfforddi yn cael eu darparu yn y Gymraeg, ac er mwyn ystyried iaith waith y Panel Adolygu a gwrthrych yr ADUS.

**Cwestiwn 17 - Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nodwyd bod angen cael mynediad amserol at wasanaethau cyfieithu, gan y gallai hyn effeithio ar amseriad darparu'r Adolygiad. Er mwyn cefnogi'r adolygiad, awgrymwyd bod angen cronfa o adolygwyr sy'n gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 18 – Yr ydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

Mynegwyd pryderon am amseroldeb yr hyfforddiant ar gyfer adolygwyr, cadeiryddion ac aelodau'r panel a'r angen am gyrsiau diweddarau mewn perthynas â'r broses adolygu, a sut y bydd hyn yn wahanol i'r anghenion hyfforddiant yn Lloegr ar gyfer lladdiadau domestig. Hefyd, roedd hyn yn gysylltiedig â sut y bydd annibyniaeth Adolygwyr yn cael ei fesur, yn enwedig pan fyddant yn cynnal nifer o adolygiadau mewn un rhanbarth, a allai arwain at elfen o gynefindra ac amharu ar yr hyn a ddysgir.

Ystyriwyd bod cynhyrchu adroddiadau thematig ar gyfer y Digwyddiadau Lledaenu Gwybodaeth Thematig ddwywaith y flwyddyn yn adnodd dysgu pwysig, trwy ddarparu diweddariadau ar faterion a themâu a hysbysu staff. Ystyriwyd bod yr agwedd Dysgu Sylfaenol yn gyfle i oedi ac ystyried/egluo dysgu newydd posibl yn yr adolygiad, a allai negyddu'r angen i gwblhau adolygiad helaeth, darparu cyfle i sicrhau mwy o dryloywder a dysgu, a sicrhau bod y teulu sy'n cael ei effeithio wrth wraidd y broses adolygu.

Un pryder a nodwyd oedd oedi presennol o safbwynt adborth a chymeradwyaeth y Swyddfa Gartref. Awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn trwy gael Panel Sicrhau Ansawdd i Gymru wedi'i leoli o fewn Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei ddeall a bod ymatebion yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol.

O safbwynt y ddogfen, awgrymwyd bod rhai brawddegau yn hir a bod angen eu symleiddio, ac y byddai cynnwys rhestr eirfa yn golygu bod modd defnyddio mwy o acronymau gan helpu i leihau maint y ddogfen. Hefyd, awgrymwyd y gallai'r Hyb Cydgysylltu gynnwys tudalen 'Cwestiynau Cyffredin' ar ei wefan i gynorthwyo ymarferwyr gyda'r cyfnod pontio.

Codwyd y mater o ddefnyddio dull ffioedd safonol ar gyfer comisiynu Adolygwyr i gynnal adolygiad. Hefyd, gofynnodd ymatebwyr am fwy o wybodaeth am y rhestr gymeradwy o Gadeiryddion/Adolygwyr, argaeledd cyllid, a'r angen i gynnwys addysg pan fydd gwrthrych yr adolygiad o dan 18 oed.

Hefyd, gofynnwyd cwestiynau am geisiadau am wybodaeth amlasiantaethol gan y crwner a sut y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn. Hefyd, roedd yr ymatebwyr am i'r canllawiau ddarparu gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd os gwneir penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r adolygiad neu y gwneir gwaith i olygu'r ddogfen cyn ei chyhoeddi.

## **Crynodeb o Themâu Allweddol**

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o ganlyniad i'r broses ymgynghori. Dyma'r themâu:

1. Capasiti ac ariannu
2. Llais y dioddefwr a'r teulu
3. Hyfforddiant
4. Rhannu gwybodaeth
5. Partneriaethau
6. Dysgu
7. Llywodraethu
8. Strwythur y canllawiau

Amlinellir y themâu hyn isod yn fanylach.

1. **Capasiti ac Ariannu:** cododd dau faes pryder allweddol yn ymwneud â chapasiti; capasiti Byrddau Diogelu i wneud y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â Lladdiadau Domestig a Lladdiadau ag Arf Ymosodol, a chapasiti ac argaeledd Cadeiryddion ac Adolygwyr. Hefyd, roedd hyn yn gysylltiedig â'r angen am gyllid ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â'r materion capasiti parhaus. Cyfeiriwyd at y materion hyn 43 gwaith yn yr ymatebion i bob un o'r cwestiynau<sup>1</sup>.

*“Mae'r gallu i ddod o hyd i Gadeiryddion yn broblem barhaus ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hi.”*

*“Pa gymorth ariannol fydd ar gael i fynd i'r afael â materion capasiti, a sut y byddwch chi'n sicrhau ei fod yn deg?”*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae capasiti yn broblem sy'n bodoli eisoes, ac mae'r sefyllfa yn waeth oherwydd bod adolygiadau unigol yn cael eu cynnal. O ganlyniad i'r broses ADUS, bydd llai o adolygiadau yn cael eu cynnal yng Nghymru gan y bydd yr angen am adolygiadau lluosog ar gyfer un achos yn cael ei grynhoi mewn un broses adolygu. Dylai hyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau capasiti presennol.

Yn ogystal, bydd sefydlu rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr yn helpu Byrddau Diogelu i gyflogi'r rhai sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol. Hefyd, mae'r tîm ADUS wedi cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i lunio papur ar gyfer y Bwrdd Gweinidogol sy'n ystyried sut y gellid talu iawndal am ymgymryd â'r rolau hanfodol hyn. Bydd hyn yn helpu i ddenu unigolion allweddol i ymgymryd â'r rôl, ac yn galluogi Cynghorau a sefydliadau eraill i fynd i'r afael â materion capasiti mewnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd baich ychwanegol ar y Byrddau Diogelu, ac felly mae wedi rhoi cyllid ychwanegol iddynt er mwyn helpu i sefydlu'r broses ADUS.

Yn ogystal, bydd yr Hyb Cydgysylltu ADUS yn gallu darparu cymorth ychwanegol mewn perthynas â rhannu dysgu ar sail Cymru gyfan, gan helpu i nodi pobl sydd â'r arbenigedd perthnasol i ymgymryd â'r rolau gwahanol a monitro'r broses o gyflwyno'r argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o Adolygiadau.

2. **Llais y Dioddefwr a'r Teulu:** nododd 18 ymateb fod y broses ADUS yn ceisio rhoi'r dioddefwr a'r teulu wrth wraidd y broses. Fodd bynnag, mynegodd 50 o ymatebion bryderon am sut y bydd hyn yn digwydd yn ymarferol. Yn ogystal, mynegwyd pryderon am y derminoleg a ddefnyddiwyd mewn perthynas â dioddefwyr a phrif unigolion, a'r angen am fwy o eglurder.

---

<sup>1</sup> Er gwybodaeth, derbyniwyd 48 o holiaduron wedi'u cwblhau i'r ymgynghoriad hwn. Roedd ymatebwyr yn gallu rhoi eu hymatebion i 18 cwestiwn gwahanol fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r 48 holiadur wedi'u cwblhau yn cynnwys 18 ymateb.

*“...byddai'n bosibl gwneud mwy i gadw'r dioddefwr, y teulu a'r gymuned wrth wraidd y canllawiau, a bydd angen naratif syml i helpu i wneud hyn.”*

*“...yn aml, nid oes unrhyw gyfeiriad at ddiodefwyr cam-drin domestig nad yw'r diffiniad o 'oedolyn mewn perygl' yn berthnasol iddynt, felly mae'n bosibl y bydd angen newid y geiriad os mai'r diffiniad statudol yw'r hyn a awgrymir yma.”*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Lluniwyd y canllawiau gyda chynrychiolwyr ac ymarferwyr y trydydd sector sy'n gweithio gyda diodefwyr a theuluoedd, er mwyn sicrhau bod profiadau byw yn cael eu hystyried a'u bod yn ganolog i'r broses ADUS. Hefyd, mae'r tîm ADUS wedi bod yn gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd i'w alluogi i weithredu fel ffrind beirniadol i'r broses a darparu arweiniad ar sut mae'r diodefwr a'r teulu yn aros wrth wraidd yr ADUS.

Bydd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau ymarfer gorau ar sut i weithio gyda diodefwyr a theuluoedd (gan gynnwys plant a phobl ifanc) mewn modd cynhwysol. Bydd y Canllawiau Statudol yn cael eu diwygio i sicrhau bod asesiad cychwynnol o anghenion y diodefwr yn cael ei gwblhau er mwyn nodi ar ddechrau'r adolygiad y gwasanaethau cymorth a threfniadau eiriolaeth priodol sydd eu hangen. Felly, bydd Adran 6 'Ymgysylltu â diodefwyr, y teulu a phrif unigolion yn ystod y broses Adolygu Diogelu Unedig Sengl' yn y canllawiau yn cael ei chryfhau i adlewyrchu hyn a darparu mwy o eglurder.

- 3. Hyfforddiant:** mynegwyd pryderon am yr angen i roi'r agenda hyfforddiant ar waith cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod gan ymarferwyr/adolygwyr y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar sut i ddatblygu'r broses unwaith y bydd yr ADUS yn cael ei weithredu. Hefyd, nodwyd anghenion dysgu parhaus a sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud. Cyfeiriwyd at y pwyntiau hyn mewn 50 o ymatebion ar wahân.

*“Pa hyfforddiant fydd ar gael a phryd y bydd modd cael sesiwn hyfforddi fyrrach yn ymwneud â hawliau neiniau a theidiau?”*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddatblygu a chyflwyno cyfres o ddeunyddiau hyfforddi. Bydd hyn yn cynnwys modiwlau wyneb yn wyneb ac e-ddysgu, sy'n targedu Cadeiryddion, Adolygwyr ac aelodau Paneli Adolygu, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y fframwaith cymhwysedd allweddol. Bwriedir cyflwyno'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod pontio rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024. Yna bydd hyfforddiant yn parhau fel rhan o raglen hyfforddi sy'n gysylltiedig â Chynllun Dysgu a Datblygu ADUS, a fydd yn cynnwys sesiynau diweddarau.

Bydd gan Ystorfa Ddiogelu Cymru ei chanllaw ysgrifenedig a gweledol ei hun hefyd er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu chwilio'r ystorfa am ddysgu allweddol.

4. **Rhannu Gwybodaeth:** mynegwyd pryderon mewn 32 o ymatebion ynglŷn â rhannu gwybodaeth iechyd ac a fydd y canllawiau statudol yn mynd i'r afael â'r mater hwn ai peidio.

*"Mae rhannu data yn broblem barhaus, a bydd yn ddiddorol gweld sut mae'r ADUS yn ymdrin â hyn."*

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae tîm ADUS wedi gweithio mewn partneriaeth â 'Geldards LLP' i ddarparu rhagor o eglurder a chanllawiau ar rannu data i'w cynnwys yn Adran 9 'Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data Personol'. Bydd hyn yn cyfeirio partneriaid at y ddeddfwriaeth berthnasol a'r seiliau cyfreithlon ar gyfer sut y gellir prosesu gwybodaeth bersonol at ddibenion adolygu. Yn ogystal, bydd yr Hyb Cydgysylltu ADUS yn gweithio i ddarparu rhagor o adnoddau er mwyn cynorthwyo partneriaid adolygu i ddefnyddio'r broses o rannu gwybodaeth a'u helpu i benderfynu pa sail sydd angen ei defnyddio.

5. **Partneriaethau:** Roedd 45 o ymatebion yn cydnabod bod yr ADUS yn gyfle i greu cysylltiadau cryfach a chryfhau'r berthynas bresennol rhwng partneriaethau wrth ymdrin â materion diogelu, yn enwedig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod y byddai angen gwneud rhagor o waith i gyflawni hyn.

*"Sut allwn ni gydlynu'r cysylltiadau rhwng Diogelwch Cymunedol a diogelu?"*

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r canllawiau yn nodi sut a phwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i'r broses ADUS. Gellir dod o hyd i hyn yn Adrannau 1 a 5 sy'n amlygu'r angen i'r Hyb Cydgysylltu a Chadeiryddion y Byrddau Diogelu a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol rannu argymhellion a champau gweithredu yn ymwneud ag adolygiadau gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd yr agwedd hon yn cael ei chryfhau trwy gael gwared â'r cyfeiriad presennol at laddiadau domestig, er mwyn rhannu'r holl wybodaeth berthnasol.

6. **Dysgu:** mynegwyd pryderon am sut y bydd modd rhannu dysgu thematig gan ADUS yn ehangach ledled Cymru, gan gynnwys y trydydd sector a'r Heddlu, a phwy fyddai'n gallu cael mynediad at Ystorfa Ddiogelu Cymru i gael gafael ar ddysgu thematig.

*“Mae dysgu gwersi o adolygiadau blaenorol yn hollbwysig gan fod yr un materion yn codi yn aml....”*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd pob ymarferydd (gan gynnwys sefydliadau trydydd sector perthnasol) yn gallu gofyn am gael mynediad at Ystorfa Ddiogelu Cymru. Bydd yr Hyb Cydgysylltu yn monitro ac yn gweinyddu'r mynediad hwn er mwyn sicrhau bod yr ystorfa yn cael ei defnyddio'n briodol, a bod defnyddwyr yn cydymffurfio â'r rheolau diogelu data. Bydd gan yr ystorfa ei chanllaw ysgrifenedig a gweledol ei hun hefyd er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu chwilio'r ystorfa am ddysgu allweddol.

Bydd Ystorfa Ddiogelu Cymru yn gyfle unigryw i'r Hyb Cydgysylltu, ymarferwyr a phartneriaid allweddol ymchwilio i dystiolaeth ac enghreifftiau amrywiol, er mwyn cael golwg gytbwys ar thema neu bwnc penodol. Defnyddir hyn wedyn i helpu i lywio ymarfer gorau, a fydd yn cael ei rannu ledled Cymru i helpu i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau yn ymwneud â materion diogelu. Nid oedd modd cael gafael ar wybodaeth am y drefn ar gyfer adolygiadau diogelu yng Nghymru o'r blaen, a bydd yn helpu i dargedu cyfleoedd dysgu allweddol, a thrwy hynny helpu i ddatblygu dull ataliol o ddiogelu, yn hytrach nag un adweithiol.

Bydd yr Hyb Cydgysylltu yn chwarae rhan ganolog trwy sicrhau bod yr hyn a ddysgir trwy Ystorfa Ddiogelu Cymru yn cael ei rannu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol gyda Byrddau Diogelu a phartneriaid allweddol eraill. Hefyd, bydd yr Hyb Cydgysylltu yn goruchwyllo'r holl argymhellion a chymau gweithredu, gan sicrhau bod modd rhoi prosesau monitro a gwerthuso effeithiol ar waith. Os nad yw camau'n cael eu gweithredu, bydd yn nodi'r rhesymau pam ac yn sicrhau bod modd uwchgyfeirio problemau i'r Grŵp Strategaeth ac, os oes angen, y Bwrdd Gweinidogol.

7. **Llywodraethu:** Mynegodd 39 o ymatebion bryderon am y strwythur llywodraethu a'r ffaith fod rolau a chyfrifoldebau yn aneglur. Teimlwyd bod angen mwy o eglurder mewn perthynas â rolau'r Bwrdd Gweinidogol, y Grŵp Strategaeth a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol.

*“...nid yw'n helpu rhywun i geisio deall pwy sy'n gyfrifol i bwy ac am beth.”*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer strwythur llywodraethu ADUS yn cael eu diwygio ar hyn o bryd er mwyn darparu mwy o eglurder am y rolau a'r cyfrifoldebau. Bydd hyperddolenni perthnasol yn cael eu cynnwys yn y ddogfen derfynol. Bydd y testun yn y Canllawiau Statudol yn cael ei ddiwygio hefyd er mwyn darparu'r eglurder sydd ei angen, er enghraifft cyfeirir at y Bwrdd Rheoli Gweithredol fel y Tîm Rheoli Gweithredol i adlewyrchu mai swyddogaeth reoli yw hon (er enghraifft, adnoddau dynol, cyllid, agweddau technegol, a rheoli llinell).

8. **Strwythur y Canllawiau:** mynegwyd pryderon am strwythur a natur ailadroddus y canllawiau.

*'Ar y cyfan, rydym yn credu bod y ddogfen yn rhy gymhleth.'*

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd natur y canllawiau yn golygu eu bod yn gymhleth gan eu bod yn dwyn ynghyd nifer o ofynion deddfwriaethol. Mae'r strwythur wedi'i ddatblygu trwy ddefnyddio'r dogfennau 'Gweithio Gyda'n Gilydd' a Chanllawiau Adolygu Lladdiadau Domestig er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r adrannau wedi'u gosod mewn trefn gronolegol, ond maent wedi'u hysgrifennu fel bod modd eu darllen ar wahân, sydd wedi arwain at ailadrodd elfennau o'r testun. Mae canllawiau Hawdd eu Deall wedi cael eu cynhyrchu hefyd i gynorthwyo'r darllenydd.

Fodd bynnag, bydd y testun yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod mor gryno a darllenadwy â phosibl. Bydd y canllawiau Hawdd eu Deall a'r siartiau llif yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses hon hefyd.

Yn ogystal, bydd y rhaglenni hyfforddiant sydd i'w cynnal yn cynorthwyo ymarferwyr i ddeall y Canllawiau.

## Camau Nesaf

Dyma'r camau allweddol nesaf:

1. cyhoeddi canfyddiadau'r adroddiad ymgynghori ar dudalen we ymgynghori Llywodraeth Cymru ac anfon copi at yr holl ymatebwyr a rhanddeiliaid allweddol er gwybodaeth;
2. diwygio'r Canllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd a diwygio'r canllawiau Hawdd eu Deall yn unol â hynny; ac adolygu'r Asesiad Effaith Integredig o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl;
3. defnyddio'r adborth ar ymgynghori i lywio'r rhaglen hyfforddi a'r broses o'i chyflwyno;
4. cyflwyno'r canllawiau diwygiedig a'r papur ar faterion capasiti i'r Bwrdd Gweinidogol ym mis Tachwedd 2023 i'w cymeradwyo;
5. gweithio gyda Byrddau Diogelu a phartneriaid allweddol eraill fel rhan o gyfnod pontio cyn cyhoeddi Canllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a'u cyflwyno yn llawn ym mis Ebrill 2024; a
6. diwygio Cynlluniau Cyflenwi'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac Ystorfa Ddiogelu Cymru i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd.




## Atodiad Un

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys graffiau a siartiau sy'n crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Derbyniwyd cyfanswm o 48 o holiaduron wedi'u cwblhau i'r ymgynghoriad. Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr roi ymateb i bob un o'r cwestiynau, a dyna pam nad yw rhai o'r graffiau a'r siartiau yn cynnwys y 48 ymateb yn llawn. Nid oedd rhai o'r cwestiynau yn cynnwys opsiwn i ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol gan eu bod yn cynnwys blwch testun rhydd. Dyna pam nad oes graff neu siart cyfatebol ar gyfer rhai o'r cwestiynau.


Bydd yr adran hon yn cynnwys siart ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad er mwyn dangos canrannau'r ymatebwyr a ymatebodd yn gadarnhaol neu'n negyddol i gwestiynau'r ymgynghoriad. Hefyd, roedd ymatebwyr wedi cynnwys atebion testun rhydd ar ôl ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol i'r cwestiwn, a dylid darllen y sylwadau hyn ochr yn ochr â'r graffiau.

**Cwestiwn 1 - A yw'r Cyflwyniad yn rhoi eglurder ynglŷn â'r amcanion a'r rhesymau dros gyflwyno'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)? A yw'r Cyflwyniad fel y mae wedi'i nodi yn Adran 1 yn glir ac yn hawdd i'w ddeall?**




Ydy Nac ydy

**Cwestiwn 2 - A yw'r Egwyddorion sy'n tanategu'r ADUS a nodir yn Adran 2 yn cyflawni canlyniad dymunol ymagwedd ragweithiol tuag at ddatblygu datrysiadau a diwylliant dysgu cadarnhaol sy'n osgoi adroddiadau lluosog ar gyfer un digwyddiad, gan helpu i leihau trawma pellach ar gyfer dioddefwyr a'u teuluoedd?**




Ydyn Nac ydyn

**Cwestiwn 3 - A yw Adran 3 yn rhoi'r eglurder sydd angen i benderfynu pa bryd y dylid ymgymryd ag ADUS, ac a yw'r meini prawf yn glir a defnyddiol?**




Ydy Nac ydy

**Cwestiwn 4 - A yw Adran 4 yn darparu eglurder am y broses ADUS, ac a oes digon o fanylion ar gyfer pob cam?**




Ydy Nac ydy

**Cwestiwn 5 - A yw pob un o'r Rolau a Chyfrifoldebau a nodir yn Adran 5 yn glir a defnyddiol?**




Ydyn Nac ydyn

**Cwestiwn 6 - A yw paragraffau 5.6-5.9 ac atodiad 3 y canllawiau'n helpu Adolygw(y)r i ystyried pa un ai a ddylai partneriaid cymunedol (megis sefydliadau annibynnol a thrydydd sector) gael rhan yn y broses ADUS? Os na, sut y gallai'r canllawiau wella ar hyn?**




Ydyn Nac ydyn

**Cwestiwn 9 - A yw'r canllawiau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr, teuluoedd a phrif unigolion, fel y nodir yn Adran 6, yn glir a defnyddiol? Ystyriwch pa un ai a yw'n glir bod angen i'r Adolygw(y)r a'r Panel Adolygu ymdrin â phob cyfranogwr yn yr adolygiad fesul achos ac yn sicrhau bod y dioddefydd, teuluoedd a phrif unigolion wrth galon y broses adolygu.**




Ydyn Nac ydyn

**Cwestiwn 10 - Mae Adran 7 yn amlinellu nifer y camau sydd angen eu cymryd fel rhan o'r broses adolygu. A yw'r camau hyn yn y drefn gronolegol briodol ac yn glir o ran yr hyn sy'n ofynnol?**




Ydyn Nac ydyn

**Cwestiwn 11 - A yw Adran 8 yn sicrhau bod dysgu'n elfen allweddol o'r broses ADUS ac yn rhwymedigaeth statudol drwy roi eglurder ynglŷn â sut y rhennir dysgu a gwybodaeth fel rhan o'r broses ehangach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaethau perthnasol megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?**




Ydy Nac ydy

**Cwestiwn 12 - A yw Adran 9 yn nodi'r ystyriaethau Diogelu Data mewn ffordd sy'n glir a defnyddiol? Hoffech chi weld ymrwymiad cyfreithiol clir yn yr adran hon sy'n ei wneud yn ofynnol i bartneriaid adolygu rannu gwybodaeth ar gyfer dibenion adolygu ADUS ar gais, pe bai modd dod o hyd i un?**



Ydy Nac ydy

**Cwestiwn 13 - A yw'r canllawiau'n rhoi digon o eglurder a hyblygrwydd er mwyn sicrhau y bydd partneriaid allweddol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gysylltiedig ac yn ymwneud â'r broses ADUS yn effeithiol, pan mae hyn yn briodol a defnyddiol?**



Ydyn Nac ydyn



## Atodiad Dau

Mae'r tabl hwn yn cynnwys gwybodaeth am bwy ymatebodd i'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Cyfeirnod	Ymateb Ar-lein neu E-bost	Di-enw	Enw neu Sefydliad
1	Ar-lein	√	
2	Ar-lein	√	
3	Ar-lein	x	Siân James
4	Ar-lein	√	
5	Ar-lein	√	
6	Ar-lein	√	
7	Ar-lein	√	
8	Ar-lein	x	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
9	Ar-lein	√	
10	Ar-lein	x	Heddlu Gogledd Cymru
11	Ar-lein	√	
12	Ar-lein	x	Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
13	Ar-lein	x	Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
14	Ar-lein	x	Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
15	Ar-lein	√	
16	Ar-lein	x	Grŵp Pobl
17	Ar-lein	x	Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
18	Ar-lein	x	Ymateb Rhanbarthol Bwrdd Diogelu Gwent
19	Ar-lein	√	
20	Ar-lein	x	Uned Gyswllt yr Heddlu – yn ymateb ar ran Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru

21	Ar-lein	√	
22	E-bost	x	Stori
23	E-bost	x	Jan Williams. Aelod annibynnol o Banel DHR QA y Swyddfa Gartref; Aelod o Grŵp Llywio ADUS
24	E-bost	x	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
25	E-bost	x	Advocacy After Fatal Domestic Abuse (AAFDA)
26	E-bost	x	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
27	E-bost	x	Iechyd Cyhoeddus Cymru
28	E-bost	x	Y Swyddfa Gartref
29	E-bost	x	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
30	E-bost	√	
31	E-bost	x	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
32	E-bost	Heb nodi	
33	E-bost	x	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
34	E-bost	x	Barnardo's Cymru
35	E-bost	x	Tîm Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
36	E-bost	x	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
37	E-bost	x	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
38	E-bost	x	CLILC
39	E-bost	x	Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
40	E-bost	Heb nodi	
41	E-bost	x	Anabledd Dysgu Cymru
42	E-bost	x	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys
43	E-bost	x	Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg

44	E-bost	x	Age Cymru
45	E-bost	x	Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
46	E-bost	x	NSPCC Cymru
47	E-bost	Heb nodi	
48	Ar-lein – Hawdd ei Ddeall	√	

